



UNED 1 - Adolygu

Pwy ydych chi?

Siân ydw i.

Beth ydy'ch enw chi?

Lle dych chi'n byw?

Rydw i'n byw **yn Aberaeron**.

Beth ydy'ch rhif ffôn chi?

Fy rhif ffôn i ydy **01545 570570**.

Faint ydy'ch oed chi?

Rydw i'n bum deg oed.

Ydych chi'n gweithio?

Ydw, dw i'n gweithio yn **y coleg**.

Ydw, **ysgrifenyddes** ydw i.

Nac ydw, dw i **wedi ymddeol**.

Oes teulu gyda chi?

Oes, mae **un ferch** gyda fi.

Nac oes, does dim teulu gyda fi.

Beth ydych chi'n hoffi wneud?

Dw i'n hoffi **golff** ac **yfed coffi**.

Dw i wrth fy modd yn **ymlacio**.

Beth wnaethoch chi haf
llynedd?

Es i i **Landudno**. Roedd hi'n **bwrw glaw**.

Es i i **Benidorm**. **Nofiais** i ac **yfais i**
llawer o goctêls.

Tasg 1

Nodwch eich manylion chi yn y blwch isod mewn brawddegau llawn

Enw :

Cartref :

Rhif ffôn :

Oed :

Gweithio :

Teulu :

Diddordebau :

Haf llynedd:



Tasg 2

Llenwch y bylchau :

1. _____ ydy'ch enw chi?
2. _____ oedd y tywydd ar eich gwyliau?
3. Beth _____ chi dros yr haf?
4. Ble ydych _____ gweithio?
5. Oes teulu _____ chi?
6. Beth ydy'ch rhif _____ chi?

Nawr meddyliwch am ddau berson arall, ac ysgrifennwch eu manylion nhw yn y ddau focs :

Person 1

Enw :
Cartref :
Rhif ffôn :
Oed :
Gweithio :
Teulu :
Diddordebau :
Yr haf :

Person 2

Enw :
Cartref :
Rhif ffôn :
Oed :
Gweithio :
Teulu :
Diddordebau :
Yr haf :



Pwy ydy e/hi?

Beth ydy ei enw e/ei henw hi?

Lle mae e'n/hi'n byw?

Beth ydy ei rif ffôn e/ei rhif ffôn hi?

Faint ydy ei oed e/ei hoed hi?

Ydy e'n/hi'n gweithio?

Oes teulu gyda fe/hi?

Beth mae e'n/hi'n hoffi wneud?

Beth wnaeth e/hi dros yr haf?

Dafi ydy e./**Elsi** ydy hi.

Mae e'n/hi'n byw **ynghastell Nedd**.

Ei rif ffôn e ydy **01639 839442**.

Ei rhif ffôn hi ydy **01639 273022**.

Mae e'n/hi'n dri deg tri oed.

Ydy, mae e'n/hi'n gweithio yn **y swyddfa**.

Ydy, **darlithydd** ydy e./hi.

Nac ydy, mae e/hi'n **ddiwaith**.

Oes, mae **dau fab** gyda fe/hi.

Nac oes, does dim teulu gyda fe/hi.

Mae e'n hoffi **rygbi** a **chanu carioci**.


Mae hi'n hoffi **dawnsio** a **rhedeg**.

Aeth e i **Gaerdydd**. Roedd hi'n **braf**.

Aeth hi i **Rufain**. Roedd hi'n **grasboeth**.

Tasg 3

Dewiswch **un** o'r bobl yn y lluniau yma. Dychmygwch eu bod nhw'n gweithio yn eich adran chi. Disgrifiwch nhw! :



Cofiwch :

yn + enw lle = **tr. trwynol**

yn + P = ym Mh

yn + T = yn Nh

yn + C = yng Ngh

yn + B = ym M

yn + D = yn N

yn + G = yng Ng



Amser hamdden

Beth **ydych** chi'n hoffi ei wneud
yn yr haf?

Rydw i'n mwynhau mynd i'r traeth.

Beth **oeddech** chi'n hoffi ei wneud
yn yr haf pan oeddech chi'n blentyn?

Pan **roeddwn** i'n blentyn, roeddwn
i'n mwynhau nofio yn y môr.

Beth **fyddwch** chi'n ei wneud haf
nesa?

Haf nesa, **bydda** i'n aros gartref.

Beth **fasech** chi'n hoffi ei wneud haf
nesa?

Haf nesa, **baswn** i'n hoffi mynd i
Alicante.

Tasg 4


Edrychwch ar y pedwar person yn y llun yma.
Dychmygwch rydych chi'n gweithio gyda nhw, ac
rydych chi'n gofyn y pedwar cwestiwn uchod iddyn nhw.
Ysgrifennwch beth fyddai eu hatebion.:



Enw	yn yr haf	yn yr haf yn blentyn	yr haf nesa	basen nhw'n hoffi haf nesa



Tasg 5



Ymarfer darllen – cyfarch a chyflwyno

Darllenwch y bedair sgript fer yma. Mae pobl yn cyfarch ac yn cyflwyno ym mhob sgript.

Ble basech chi'n clywed bob un?

a. yn y swyddfa

b. mewn cyfarfod gyda'r rheolwr

c. mewn parti

ch. cwrdd â pherson newydd yn y gwaith

1

Mari: Bore da, Mari dw i, y pennaeth.
Dyma'r ddau aelod staff arall yn yr adran, Dafi a Nia.
Ben: Bore da. Ben dw i. Dw i'n edrych ymlaen at weithio yma.
Nia: Croeso cynnes aton ni. Hoffech chi gael paned?

2

Gwen: Helo, Sam. Sut wyt ti ers oesoedd? Mae'n noson dda.
Gyda llaw, dyma fy mhartner i, Mair.
Sam: Braf cwrdd â ti, Mair.
Gobeithio bod Gwen yn gofalu amdanat ti heno.

3

Elin: Bore da, bawb. Gaf i eich sylw chi am funud os gwelwch yn dda? Hoffwn i gyflwyno John, ein rheolwr swyddfa newydd.
Mae John yn gweithio i'r Cyngor Sir ar hyn o bryd ond bydd e'n ymuno â ni ar ddiwedd y mis.
John: Diolch, Elin. Gwela i chi i gyd ar ddiwedd y mis. Dw i'n edrych ymlaen at ddechrau.

4


Gwion: Bore da bawb, a diolch i chi gyd am ddod yma bore 'ma.
Rydw i wedi cael neges wrth y pennaeth bod angen i ni wneud llawer o newidiadau.
Pwy sy'n mynd i wneud y cofnodion bore 'ma.
Dan: Fi. Dw i'n hapus i wneud y cofnodion.
Gwion: Diolch i ti Dan. Dechreuwn!

ATEBION : a. _____ b. _____ c. _____ ch. _____



Tasg 6

Ymarfer Gwrando



Gwrandewch ar y sgwrs yma am Nant Gwrtheyrn (hyperddolen yn y llun), a llenwch y bylchau yn y sgript:

Sam: Bore da. Sam Smith dw i. Pwy dych chi?

Chris: Helo Sam, Chris Carter dw i. Dych chi ar y _____
Canolradd?

Sam: Ydw. Dw i wedi dod yma o Bontypridd. O ble dych chi
wedi dod _____?

Chris: O Gaerffili. Dych chi wedi bod yn _____ o'r
blaen?

Sam: Nac ydw. Mae'n _____ iawn yma, on'd yw hi?

Chris: Ydy, wir. Ond mae'n bell o Gaerffili!

Sam: _____ phwy dych chi wedi dod yma?

Chris: Gyda Gareth o'r dosbarth. 'Dyn ni'n dilyn cwrs ar fore
Mercher yn y _____.

Sam: Wel, wel, dw i'n dysgu ar fore Mercher hefyd! Dw i
wedi dod yma gyda Gwen o'r _____.

Chris: Ble dych chi'n gweithio?

Sam: Yn y _____. Dych chi'n gweithio?

Chris: Nac ydw, dw i wedi _____.

Sam: Lwcus iawn! _____ i chi.



Geirfa

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
adran/nau	department/s

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
cofnod/ion	minute/s (in a meeting)

Berfau *Verbs*

Cymraeg	Saesneg
ymlacio	to relax
ymuno	to join

Ansoddeiriau *Adjectives*

Cymraeg	Saesneg
crasboeth	boiling hot (weather)